# DAVIES, THOMAS (1837 - 1892), arbenigwr mewn mwnofyddiaeth

**Enw:** Thomas Davies
**Dyddiad geni:** 1837
**Dyddiad marw:** 1892
**Rhiant:** William Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arbenigwr mewn mwnofyddiaeth
**Maes gweithgaredd:** Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg
**Awdur:** Frederick John North

a mab William Davies, palaeontolegwr; ganwyd yn St Pancras, Llundain, 29 Rhagfyr 1837. Ar ôl treulio peth amser ar y môr aeth Davies yn gynorthwywr yn adran y mwnau yn yr Amgueddfa Brydeinig, 1858; o dan yr athro M. H. N. Story-Maskelyne daeth yn arbenigwr mewn mwnofyddiaeth, ac yr oedd yn arloesydd astudio creigiau gyda chymorth y chwyddwydr. Yn union yr un fath â'i dad ymddiddorai fwy yn ei waith swyddogol nag mewn cyhoeddi ffrwyth ei waith ymchwil, ond bu iddo anfon rhai cyfraniadau i'r *Quarterly Journal of the Geological Society*, y *Geological Magazine*, a'r *Mineralogical Magazine*; bu'n golygu 'r olaf o'r tri am lawer blwyddyn. Fe'i hetholwyd yn F.G.S. yn 1870 a dyfarnwyd ' Wollaston Fund ' y ' Geological Society ' iddo yn 1880. Bu farw 21 Rhagfyr 1892.

## Awdur

**Frederick John North**, (1889 - 1968)

## Ffynonellau


*The Geological Magazine*, 1893, 96

*Quarterly Journal of the Geological Society of London*, 1893, 54-5


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 54146331927318692225

Wikidata: Q18559887


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu